

Cyngor Sir Penfro
Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig 2017-2033
ARHOLIAD
Pembrokeshire County Council
Revised Local Development Plan 2017-2033
EXAMINATION

Arolygwyr / Inspectors:
Ian Stevens BA (Hons) MCD MRTPI
Paul Selby BEng (Hons) MSc MRTPI

Swyddog Rhaglen / Programme Officer:
Deborah Williamson

ff/t: 01437 775545 e: programmeofficer@pembrokeshire.gov.uk

Harriet Lavender
Head of Planning
Pembrokeshire County Council/Cyngor Sir Penfro
County Hall/ Neuadd y Sir
Haverfordwest/Hwlfordd
Pembrokeshire/Sir Benfro
SA61 1TP

2 Rhagfyr 2025

Annwyl Ms Lavender

Cynllun Datblygu Lleol Sir Benfro 2 – cwestiynau cychwynnol i'r cyngor

Ar ôl adolygu'r ail Gynllun Datblygu Lleol (CDLI) adnau, y newidiadau â ffocws, a'r dogfennau cyflwyno cysylltiedig, rydym wedi nodi rhai materion y mae angen mynd i'r afael â nhw cyn y gellir bwrw ymlaen â'r archwiliad ymhellach.

Nodir y materion dan sylw isod. Efallai bod rhywfaint o'r wybodaeth rydyn ni'n chwilio amdani wedi'i chynnwys mewn dogfennau sydd eisoes wedi'u cyflwyno. Os felly, dylid cyfeirio at yr wybodaeth hon yn hytrach na'i dyblygu.

1. Effeithiau datblygiad arfaethedig ar safleoedd Ewropeaidd

Fel y nodir yn eich datganiad sefyllfa (SD12), canfu'r asesiadau cyflwr diweddaraf, a gyhoeddwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) ar 25 Mehefin 2025, fod Aberdaugleddau mewnol, o fewn Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) Forol Sir Benfro, mewn cyflwr anffafriol oherwydd tystiolaeth o fethiant cemegol a biolegol mewn cyrff dŵr. Fel y gwyddoch, mae CNC yn cynghori y gellir dod i gasgliad na fyddai unrhyw effaith niweidiol ar gyfanrwydd safle mewn Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd, pan all cynllun sydd â'r potensial i gynyddu gollyngiadau maethynnau sicrhau mesurau lliniaru priodol a dangos niwtraliaeth o ran maethynnau mewn perthynas â nitrogen. Mae dalgylch yr ACA forol yn cwmpasu ardal fwy na dalgylch ACA Afonydd Cleddau, ond nid yw'n syndod bod y ddau yn cydberthyn.

Mae'r datganiad sefyllfa a gyflwynwyd yn nodi y byddai tua 70 o ddyraniadau'r CDLI yn gollwng dŵr gwastraff i'r ACA forol. Er bod y datganiad sefyllfa yn nodi y dylai ffurfio atodiad i'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd, nid yw'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd a

gyflwynwyd (SD03 – a ddiwygiwyd ar gyfer newidiadau â ffocws / cyflwyniad, 17 Gorffennaf 2025) wedi'i ddiweddarau i adlewyrchu hyn. Mae'n anodd darllen rhwng y ddau, ond nid yw'n glir hefyd a ydyw effeithiau cyfunol prosiectau wedi'u hystyried yn ddigonol.

Ar ben hynny, mae'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yn nodi sawl dyraniad a dynodiad sy'n dod o fewn dalgylch ACA afonol. Mae'n nodi'r canlynol am y safleoedd hyn:

- a. Maent yn defnyddio gweithfeydd trin dŵr gwastraff sy'n gollwng i lawr yr afon o'r ACA afonol;
- b. Byddent yn cysylltu â gwaith trin dŵr gwastraff â thrwydded amgylcheddol sydd â'r capasiti i ddarparu ar gyfer llifoedd budr ychwanegol o fewn y terfyn ffosfforws a osodwyd, neu
- c. Byddant yn defnyddio datrysiad draenio nad yw'n rhan o'r prif gyflenwad.

O ran (b), mae'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yn dibynnu ar y dull 'cyfran deg' a nodwyd yn *'Cyngor i awdurdodau cynllunio ar gyfer ceisiadau cynllunio sy'n effeithio ar ardaloedd cadwraeth arbennig sy'n sensitif i faethynnau'* CNC, sy'n dangos y gellid dod i gasgliad nad oes unrhyw effaith arwyddocaol debygol ar gyfer dyraniadau lle mae capasiti i drin y dŵr gwastraff ychwanegol tebygol o fewn terfynau trwydded amgylcheddol. Fodd bynnag, mae *datganiad polisi cynllunio interim ar ddatblygiad mewn afonydd ardaloedd cadwraeth arbennig [ac ati]* (5 Awst 2025) yn dangos y gall awdurdodau cynllunio lleol a datblygwyr ddibynnu ar ddull cyfran deg **lle gellir dangos bod camau gweithredu yn cael eu cymryd gan gyrff cyhoeddus ac asiantaethau statudol i leihau llwytho maethynnau i ddalgylchoedd ACA** [ein pwyslais ni]. Mae hwn yn elfen gynhenid o erthygl 6(2) o'r gyfarwydddeb cynefinoedd, sy'n ei gwneud yn ofynnol i aelod-wladwriaethau gymryd 'camau priodol' i osgoi dirywiad ardaloedd cadwraeth arbennig.

Mae polisi arfaethedig GN 47 (Ansawdd Dŵr a Gwarchod Adnoddau Dŵr) y CDLl yn cyfeirio at yr egwyddor 'cyfran deg'. Fodd bynnag, nid oes cydnabyddiaeth nad yw gweithfeydd trin dŵr gwastraff sydd â 'hyblygrwydd' wedi'i nodi ar gyfer cysylltiadau newydd o fewn y lwfans a ganiateir iddynt yn ddigonol i gyfiawnhau llwythi ychwanegol ar bwynt lle gallai ACA fod yn dal i fethu, heb fod tystiolaeth hefyd o'r camau priodol a fwriadwyd i gyflawni niwtraliaeth o ran maethynnau. Nid yw'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yn nodi'n ddigonol pa 'gampau priodol' a allai fod yn ofynnol er mwyn i'r CDLl gyflawni niwtraliaeth o ran maethynnau mewn perthynas â ffosfforws. Nid yw'n glir ychwaith beth yw maint a natur y llwythi ffosfforws i'w lliniaru gan bolisi GN 47 a pholisïau eraill, gan gynnwys effeithiau cronol datblygiad arfaethedig ar weithfeydd trin dŵr gwastraff. Er y gellir dod i gasgliad bod 'dim effeithiau arwyddocaol tebygol' mewn Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ar sail polisïau rheoli datblygu clir a chadarn ar gyfer dileu neu liniaru risgiau, ni fyddai'r polisi a gyflwynwyd, na'r geiriad diwygiedig a gynigiwyd yn y datganiad sefyllfa, yn sicrhau hyn.

Byddem hefyd yn nodi nad yw goblygiadau hyfywedd a chyflawnadwyedd sicrhau unrhyw liniaru posibl, megis draenio cynaliadwy, yn glir. Yn hyn o beth, gan gyfeirio at

faen prawf (c) uchod, mae Polisi Cynllunio Cymru a Chylchlythyr 008/2018 Llywodraeth Cymru yn nodi y dylai fod tystiolaeth nad yw draenio prif gyflenwad yn ymarferol.

Tystiolaeth y mae ei hangen i gefnogi'r CDLI

Mae'r datganiad polisi cynllunio dros dro yn nodi'r hyn y mae ei angen er mwyn i unigolyn sy'n gwneud penderfyniad fod yn fodlon bod y camau priodol yn 'ddiogel'. I aralleirio, dyma nhw:

- Amcangyfrifwyd maint y gwelliannau pellach sy'n angenrheidiol er mwyn osgoi dirywiad o ganlyniad i weithgareddau presennol / gweithgareddau sy'n mynd rhagddynt.
- Mae'r camau priodol i'w cymryd wedi'u nodi'n glir ac wedi'u cysylltu â mecanwaith cyflawni priodol.
- Mae amserlen glir ar gyfer rhoi'r camau priodol ar waith.

Byddai'n afrealistig disgwyl i wybodaeth o'r fath gael ei darparu â lefel uchel o fanylder a sicrwydd yn y cam CDLI, boed mewn perthynas â dangos y gellir eu cyflawni neu fel rhan o'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd. Serch hynny, bydd angen rhyw arwydd o natur ac amseriad tebygol camau priodol, yn enwedig os yw'r CDLI yn cymryd yn ganiataol dull 'cyfran deg' o gyflawni niwtrialiaeth o ran maethynnau.

Fel y cydnabyddir yn eich datganiad sefyllfa, cymhlethdod pellach yw dyfarniad diweddar y Goruchaf Lys (*CG Fry & Son Ltd v Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Dai, Cymunedau a Llywodraeth Leol [2025] Goruchaf Lys y DU 35*) sy'n cadarnhau bod Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yn berthnasol o ran cyflawni amodau cynllunio. Mae'r datganiad sefyllfa yn cymryd safbwynt cychwynnol ar 'ymrwymadau' y gellid bod wedi effeithio arnynt, ond mae'n derbyn y gallai fod angen ymchwiliad pellach i ganfod yr amgylchiadau parhaus ar gyfer pob safle. Dim ond llwythi nitrogen y mae'n eu hystyried hefyd.

Fel y cydnabyddir yn y datganiad sefyllfa, mae erthygl 6 (3) o'r Gyfarwydddeb Cynefinoedd yn nodi mai dim ond ar ôl dod i gasgliad na fydd yn effeithio'n andwyol ar gyfanrwydd y safle dan sylw y caniateir cytuno ar gynllun. Ein hasesiad ni yw bod y dystiolaeth ar hyn o bryd yn annigonol o ran yr hyn sy'n ofynnol, o ran cydymffurfedd weithdrefnol a pha mor ddibynadwy ydyw.

Rydym hefyd yn pryderu nad yw safbwynt CNC ar eich Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yn hysbys ar hyn o bryd, o ran a ydyw gwelliannau 'newidiadau â ffocws' yn mynd i'r afael â phryderon blaenorol a godwyd ynghylch effeithiau llygredd atmosfferig ar safleoedd Ewropeaidd, ac mewn perthynas â'r dull awgrymedig o ymdrin â llwythi nitrogen yn y datganiad sefyllfa.

Gan fod y mater hwn yn hanfodol o ran cyflawni strategaeth y CDLI, mae angen mwy o dystiolaeth ar hyn o bryd. Byddem yn disgwyl i hyn fod ar ffurf **cynllun gweithredu**

lliniaru dangosol; **Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd diwygiedig**; ac (o bosibl) **Datganiad Tir Cyffredin gyda CNC**. Rydym yn nodi yn yr atodiad y pwyntiau manwl yr ydym angen eglurder arnynt cyn y gall yr archwiliad fynd rhagddo.

Rydym yn ymwybodol bod Llywodraeth Cymru wedi sefydlu Tasglu Datblygu Nitradau Morol sy'n dwyn amrywiaeth o randdeiliaid ynghyd i nodi ac archwilio datrysiadau a fydd yn hwyluso datblygiad yn yr ardaloedd yr effeithir arnynt. Byddwn yn parhau i fonitro unrhyw ddeilliannau o'r trafodaethau hynny sy'n effeithio ar gynlluniau datblygu lleol ac yn ymateb os oes angen.

2. Cynllun / tystiolaeth seilwaith

Mae paragraff 5.125 o'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu, Rhifyn 3 yn nodi bod cynllun seilwaith yn offeryn hanfodol y dylai awdurdodau cynllunio lleol ei baratoi. Er bod y CDLl a'i dystiolaeth yn cyfeirio at bapur cefndir a chanllawiau cynllunio atodol sy'n ymwneud â 'safleoedd datblygu a seilwaith', nid yw'r rhain nac unrhyw fath arall o gynllun seilwaith cynhwysfawr wedi'u cyflwyno.

Er mwyn llywio'r archwiliad, cyflwynwch gynllun / atodlen seilwaith sengl sy'n nodi'r canlynol:

- Seilwaith angenrheidiol (ar y safle neu oddi ar y safle) na allai datblygu safleoedd a neilltuwyd o fewn cyfnod y cynllun fynd rhagddo hebddo, fel y rhagwelwyd yn y CDLl.
- Pob eitem seilwaith arall a nodwyd neu a ddiogelwyd yn y CDLl.

Ar gyfer pob eitem yn ymwneud â seilwaith dylid nodi'r canlynol:

- Costau dangosol a ffynonellau ariannu (gan gynnwys rhagdybiaethau realistig ynghylch cyfraniadau o rwymedigaethau cynllunio neu ardoll seilwaith cymunedol).
- Partïon sy'n gyfrifol am gyflawni, a sut mae'r elfen seilwaith yn ymwneud â'u blaenoriaethau, eu hamserlenni, a'u cynlluniau.
- Amserlenni disgwylidiedig / angenrheidiol ar gyfer gweithredu.

Mewn perthynas â seilwaith trafnidiaeth yn benodol, rydym yn ceisio'r canlynol:

- Diweddariad ar gynnydd Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol De-orllewin Cymru ac eglurhad ynghylch a ydyw'r CDLl yn gyson â hyn.
- Pan allai effeithiau niweidiol posibl ar seilwaith trafnidiaeth neu ddiogelwch priffyrdd godi o ddatblygu safleoedd a neilltuwyd, arwydd o effeithiau tebygol, unrhyw ddisgwyliadau ar gyfer ceisiadau cynllunio (e.e. datganiadau trafnidiaeth, mesurau lliniaru wedi'u mewnlannu), a sut y dylid egluro'r disgwyliadau hyn i ymgeiswyr.

3. Llifogydd ac erydu arfordirol

Darperir asesiadau o ganlyniadau llifogydd ac erydiad arfordirol mewn dau asesiad canlyniadau llifogydd strategol Cam 1, un yn dyddio o 2019 (SD43.1) a'r asesiad diweddaraf o 2022 (SD43.24). Cyfeirir at yr astudiaethau hyn ym mharagraff 3.12 o'r CDLl.

Cyhoeddwyd Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 15, 'Datblygu, llifogydd ac erydu arfordirol', ym mis Mawrth 2025. Ymhlith pethau eraill, mae hyn yn nodi beth y dylai Asesiad Strategol o Ganlyniadau Llifogydd ei gynnwys, a pha faterion a pholisïau y dylai cynlluniau datblygu lleol fynd i'r afael â nhw.

Mae ymateb y cyngor i'r cwestiynau rhagarweiniol (SD13a) yn dadlau, yn amodol ar ddiweddariadau cyfyngedig, bod y CDLl a gyflwynwyd yn cyd-fynd â fersiwn 2025 o TAN 15. Fodd bynnag, nid oes digon o fanylion i ddangos bod y dystiolaeth a'r CDLl wedi'u hadolygu'n gynhwysfawr i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â gofynion y TAN wedi'i ddiweddarau.

Felly, rydym yn ceisio papur cefndir cynhwysfawr ar y mater hwn, sy'n egluro'r canlynol:

- Sut mae'r ddau Asesiad Strategol o Ganlyniadau Llifogydd wedi llywio'r strategaeth a sut y dewisir y safleoedd a neilltuwyd.
- Sut mae'r CDLl yn cyd-fynd â'r gofynion ar gyfer cynlluniau datblygu a nodwyd yn fersiwn 2025 o'r TAN.

Os yw'n berthnasol, dylai'r asesiad hwn lywio'r cynllun seilwaith a geisir o dan (2), fel y nodir ym mharagraff 10.5 o'r TAN.

4. Cyflawnadwyedd safleoedd a neilltuwyd

Mae'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu yn cynghori y bydd angen i ddyraniadau tai newydd gael eu hategu gan dystiolaeth gadarn yn ymwneud â chyflawni, cyflenwi fesul cam, gofynion seilwaith a hyfywedd. Bydd angen mwy o dystiolaeth i ategu cyflawniad safleoedd sy'n allweddol i'r cynllun, gyda gofynion hanfodol i gyflawni'r safleoedd hyn wedi'u cynnwys mewn polisi ac egwyddorion a nodir mewn Datganiadau Tir Cyffredin. Mae'n ychwanegu, ar gyfer dyraniadau a gariwyd trosodd o gynllun blaenorol, y bydd angen newid sylweddol mewn amgylchiadau i ddangos y gellir cyflawni safleoedd a chyfiawnhau cael eu cynnwys eto.

Er bod y cyngor wedi nodi canlyniadau ei asesiadau o safleoedd ymgeisiol (SD08.1–SD08.6) a'r cyflenwad tai a'r trywydd o ran cyflenwi tai (SD46), ychydig o fanylion sydd yn dangos sut y dyrannwyd safleoedd tai. Mae hyn yn cynnwys diffyg dystiolaeth sy'n cyfiawnhau cyflwyno safleoedd unigol fesul cam, neu ddatganiadau hyrwyddwr safleoedd gan gynnwys unrhyw wybodaeth am arolygon safle rhagarweiniol, er enghraifft. Mae'r arfarniad o gynaliadwyedd ac adroddiad Asesiad Amgylcheddol Strategol (SD02.1) yn cyfeirio at ganllawiau cynllunio atodol ar safleoedd datblygu a dyraniadau, ac rydym hefyd yn nodi cyfeiriad ar wahân at ganllawiau cynllunio atodol sy'n ymwneud â chadw a gwella cynefinoedd ar safleoedd a ddyrannwyd, i gefnogi Polisi

Cynllunio Gofodol 12. Fodd bynnag, nid yw'r naill ddogfen na'r llall wedi'i chyflwyno i'r archwiliad.

Mae diffyg eglurder hefyd ynghylch pa safleoedd y mae'r cyngor yn eu hystyried yn allweddol i gyflawni'r cynllun, gan gynnwys manylion am ofynion seilwaith. Mae'r Adroddiad Hyfywedd Ariannol (SD28) yn cyfeirio at safleoedd allweddol, ond yn seiliedig ar y diffiniad a ddefnyddir yn y ddogfen honno. Nid yw pob dyraniad tai o 50 o anheddau neu ragor wedi'i asesu'n unigol. O ganlyniad, nid yw'n glir a ydyw pob safle allweddol wedi'i ategu gan dystiolaethu a'i gyfiawnhau'n llawn.

Heblaw am gyfeiriad at ddau ddyraniad tai strategol sydd wedi cael eu trosglwyddo i'r cynllun a gyflwynwyd, nid oes unrhyw arwydd o'r newid mewn amgylchiadau i gyfiawnhau eu cynnwys, na pha ddyraniadau eraill sydd wedi'u cadw o'r cynllun mabwysiedig.

Dylid darparu'r dystiolaeth ganlynol naill ai mewn un neu ragor o bapurau cefndir (gan nodi'r gorgyffwrdd posibl â'r cais uchod am gynllun seilwaith).

- 'Atodiad gweithredu a chyflawni', fel y'i disgrifir yn nhabl 26 o'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu, i ddarparu tystiolaeth o gyflawniad dyrannu safleoedd – gan gynnwys cyfyngiadau a nodwyd, gofynion o ran cyflenwi fesul cam, a seilwaith. Dylid darparu unrhyw dystiolaeth ategol ar y materion hyn gan hyrwyddwyr safleoedd hefyd.
- Nodi unrhyw safleoedd allweddol a darparu tystiolaeth o gyflawniad (fel y nodir yn nhabl 18 o'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu) gan gynnwys unrhyw fanylion gan hyrwyddwyr safleoedd a Datganiadau Tir Cyffredin.
- Egluro pa ddyraniadau sydd wedi'u cario drosodd, a darparu tystiolaeth sy'n dangos y newidiadau sylweddol mewn amgylchiadau i gyfiawnhau eu cyflwyno a'u cynnwys.

5. Datblygiad ar safleoedd maes glas a thir amaethyddol sy'n dir gorau a mwyaf amlbwrpas

Mae Polisi Cynllunio Cymru yn nodi trefn chwilio am safleoedd sy'n blaenoriaethu defnyddio tir addas a chynaliadwy a ddatblygwyd yn flaenorol a/neu safleoedd heb eu defnyddio'n ddigonol.

O ystyried bod cyfran sylweddol o ddatblygiad yn cael ei chynnig ar safleoedd maes glas y tu allan i ffiniau aneddiadau presennol, ceisir eglurhad ar y canlynol:

- Pa gyfran o ddatblygiad (ar ddyraniadau a safleoedd ymrwymedig) a gynigir ar dir a ddatblygwyd o'r blaen drwy gydol cyfnod y cynllun?
- Beth yw'r dystiolaeth i gyfiawnhau rhyddhau safleoedd maes glas a chefnogi rhagdybiaethau ynghylch cyflawni safleoedd annisgwyl (e.e. astudiaethau o gapasiti trefol aneddiadau dynodedig)? Yn yr un modd, a oes gan y cyngor gofrestr o safleoedd addas sy'n dod o dan y trothwy ar gyfer dyrannu yn y CDLI? (Gweler paragraff 5.63 o'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu).

Cynghorodd sylwadaeth Llywodraeth Cymru i ail ymgynghoriad y cynllun adnau y dylid adolygu'r papur cefndir Dosbarthiad Tir Amaethyddol (SD50.1 ac SD50.2) i gynnwys crynodeb o sut mae'r polisi tir amaethyddol gorau a mwyaf amlbwrpas wedi'i ddangos a'i gyfiawnhau yn y cynllun, gan gynnwys y pwyslais a roddir ar dir gorau a mwyaf amlbwrpas mewn asesiadau safle, a sut mae polisi tir gorau a mwyaf amlbwrpas wedi'i gymhwyso i'r strategaeth ofodol a sut y dewiswyd y safle. A ydyw'r gwaith hwn wedi'i wneud, ac os nac ydyw, pam?

6. Trywydd o ran tai

Y dyddiad sylfaenol ar gyfer cydrannau'r cyflenwad tai yw 1 Ebrill 2023. O ystyried bod dwy flynedd o'r trywydd o ran tai wedi mynd heibio ers y dyddiad hwn, rydym yn ceisio'r wybodaeth ddiweddaraf am sut mae sefyllfa'r banc tir wedi newid rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Mawrth 2025, ac rydym am wybod a oes unrhyw wyriad sylweddol o'r llwybr a gynhwysir yn y CDLl; ac a oes unrhyw oblygiadau canlyniadol ar gyfer strategaeth y CDLl, gan gynnwys y lwfans hyblygrwydd.

7. Lletemau glas

Mae Polisi Cynllunio Cymru yn egluro bod rhaid i gynigion lletem las fod ar sail gadarn, a dim ond pan fo angen dangosadwy i amddiffyn y ffurf drefol y dylid eu defnyddio, a lle na fyddai mecanweithiau polisi amgen, fel ffiniau aneddiadau, yn ddigon cadarn. Mae'n ychwanegu y dylid dewis ffiniau lletem las yn ofalus gan ddefnyddio nodweddion ffisegol a ffiniau i gynnwys dim ond y tir y mae angen ei gadw ar agor yn y tymor hwy.

Mae papur cefndir y lletemau glas (SD48) yn rhoi crynodeb byr o'r broses a gynhaliwyd ar gyfer adolygu ardaloedd presennol a nodi ardaloedd newydd. Fodd bynnag, y tu hwnt i ddod i'r casgliad bod pob ardal bresennol yn gwarchod tir agored o amgylch tref ac yn atal aneddiadau rhag cyfuno, ychydig fanylion sydd yn egluro sut neu pam mae pob lletem las yn parhau i wasanaethu dibenion na allai dull ffin anheddiad eu cyflawni ar ei ben ei hun. Yn yr un modd, prin yw'r cyfiawnhad dros faint a phwrrpas y ddwy letem las newydd yn Hwlfordd a Phenfro. A ydyw'r cyngor wedi adolygu'r ardaloedd a gyflwynwyd, wedi gwneud unrhyw welliannau, a pha resymau sydd wedi eu harwain i gynnig yr ardaloedd newydd hyn?

Dylid cyflwyno papur cefndir diwygiedig sy'n mynd i'r afael â'r materion hyn mewn ffordd gynhwysfawr.

8. Materion y mae'n rhaid i'r cyngor eu hystyried (rheoliad 13)

Mae rheoliad 13 o Reoliadau CDLl 2005 (a ddiwygiwyd gan Reoliadau Cynllunio (Sylweddau Peryglus) (Cymru) 2015 (OS 2015/1597), Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) (Diwygio) 2015 (OS 2015/1598) a Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019 (OS 2019/456) yn ei gwneud yn ofynnol i'r cyngor ystyried materion penodol wrth baratoi'r CDLl. Rydym yn ceisio rhagor o wybodaeth am ddwy agwedd:

- a) Sut mae'r CDLl wedi ystyried unrhyw strategaeth dai leol berthnasol (cyfeirir at strategaeth ddrafft yn yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol ond nid oes unrhyw arwydd a ydyw hon wedi'i mabwysiadu ers hynny ac, os felly, unrhyw oblygiadau o ran y cynllun).
- b) Sut mae amcanion i atal damweiniau mawr a chyfyngu ar ganlyniadau damweiniau o'r fath i iechyd pobl a'r amgylchedd yn cael eu hadlewyrchu yn y cynllun, gan gynnwys yr angen hirdymor i wneud y canlynol:
 - i. cynnal pellteroedd diogelwch priodol rhwng sefydliadau ac ardaloedd preswyl, rhwng adeiladau a mannau defnydd cyhoeddus, ardaloedd hamdden a, chyn belled ag y bo modd, prif lwybrau trafnidiaeth
 - ii. amddiffyn ardaloedd o sensitifrwydd neu ddiddordeb naturiol penodol yng nghyffiniau sefydliadau, lle bo'n briodol drwy sicrhau pellteroedd diogelwch priodol neu fesurau perthnasol eraill; a
 - iii. yn achos sefydliadau presennol, hwyluso ac annog gweithredwyr i gymryd pob mesur angenrheidiol i atal damweiniau mawr ac i gyfyngu ar eu canlyniadau o ran iechyd unigolion a'r amgylchedd

Nodwn fod yr arfarniad o gynaliadwyedd wedi'i lywio gan fersiwn 2018 o gynllun llesiant y cyngor tra bod y fersiwn gyfredol wedi'i dyddio'n 2023 (SD44). Felly rydym yn ceisio papur byr yn egluro sut mae'r CDLl yn gyson â fersiwn gyfredol y cynllun llesiant.

9. Newidiadau arfaethedig i'r CDLl

Darparwch un atodlen o'r holl newidiadau i'r CDLl a gynigiwyd gan y cyngor (pob un â chyfeirnod wedi'i rifo). Dylid nodi'r ysgogiad ar gyfer pob newid; h.y. boed mewn ymateb i'r materion a godwyd uchod, neu fel y'i nodwyd mewn man arall yn y dystiolaeth a gyflwynwyd (e.e. yn ymateb y cyngor i'n cwestiynau cychwynnol).

Nodwn fod y cyngor o'r farn nad oedd gan y newidiadau â ffocws unrhyw oblygiadau o ran yr arfarniad o gynaliadwyedd a gynhaliwyd fel rhan o'r cynllun adnau. Os yw'r cyngor yn cynnig newidiadau pellach i'r CDLl i fynd i'r afael â'r materion a godwyd uchod, dylai gadarnhau a ydyw'r rhain (neu newidiadau arfaethedig eraill) yn debygol o gael goblygiadau sylweddol o ran yr arfarniad o gynaliadwyedd.

10. Camau nesaf / amserlen

Rydym yn cydnabod bod llawer iawn o waith eisoes wedi'i wneud i ddangos tystiolaeth o strategaeth a pholisïau'r CDLl. Serch hynny, rydym wedi nodi ein pryderon yn ein hadolygiad o dystiolaeth, gan ystyried profion cadernid y CDLl a'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu sy'n cynghori y dylai tystiolaeth fod yn gadarn, yn gymesur, ac yn gredadwy mewn perthynas â'r materion y mae'r cynllun yn ceisio mynd i'r afael â nhw, a bod rhoi mwy o bwyslais ar dystiolaeth yn hanfodol o ran y gwaith asesu safleoedd ymgeisiol.

O ystyried cwmpas ac arwyddocâd y materion uchod, rydym yn gohirio'r archwiliad am gyfnod o **12 wythnos** er mwyn rhoi amser i chi gwblhau'r gwaith ychwanegol ac ymgysylltu â chyrff perthnasol. Gellir ymestyn neu leihau hyd y cyfnod atal hwn, yn dibynnu ar hyd disgwyledig neu wirioneddol y rhaglen waith.

Dylai'r cyngor baratoi **rhaglen waith** ar gyfer ymgymryd â'r holl waith ychwanegol, gan nodi tasgau allweddol, a dyddiadau targed ar gyfer cwblhau a chyflwyno dogfennau newydd / wedi'u diweddarau. Dylid cyflwyno'r rhaglen waith i ni drwy'r swyddog rhaglen pan fydd wedi'i chynhyrchu. Dylai'r cyngor roi diweddariad i'r swyddog rhaglen **bob pedair wythnos**.

Rhaid i'r cyngor gyflwyno pob dogfen newydd / wedi'i diweddarau erbyn **24 Chwefror 2026**. Ar ôl cael yr holl ddogfennau, byddwn yn eu hadolygu ac yn eich hysbysu o'r camau nesaf.

Os oes unrhyw un o'r materion a nodwyd gennym uchod yn aneglur, cysylltwch â'r swyddog rhaglen cyn gynted â phosibl.

Bydd y llythyr hwn yn cael ei gyhoeddi ar wefan yr archwiliad. Nid ydym yn gwahodd unrhyw sylwadau nac ymatebion gan bartïon â diddordeb.

Yn gywir,

Ian Stevens ac Paul Selby

Yr Arolygwyr

Atodiad: Effeithiau datblygiad arfaethedig ar safleoedd Ewropeaidd – rhestr wirio

Dylid mynd i'r afael â'r pwyntiau canlynol gydag Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd wedi'i ddiweddarau, cynllun gweithredu, papurau / datganiadau esboniadol, amserlen o newidiadau arfaethedig i'r CDLI, a Datganiad Tir Cyffredin (os yn bosibl).

- Ar gyfer llwythi nitrogen a ffosfforws, mewn un ddogfen, darparwch wybodaeth glir am strategaethau a chatau gweithredu'r cyngor / Bwrdd Rheoli Maethynnau yn y presennol a'r dyfodol; amserlenni a mecanweithiau cyflawni posibl; a datrysiadau lliniaru posibl a'u heffeithiolrwydd tebygol o ran lleihau llwythi maethynnau.
- Eglurwch sut mae, neu a ydyw ymyriadau posibl ar gyfer gwella ansawdd dŵr a nodwyd yn yr Asesiad Seilwaith Gwyrdd i gael eu rhoi ar waith gan y CDLI.
- Ar gyfer safleoedd yr effeithir arnynt (dyraniadau, ymrwymadau, a dynodiadau perthnasol), cadarnhewch y canlynol:
 - Cynnydd wedi'i ddarogan mewn cyfeintiau ffosfforws a nitrogen ym mhob blwyddyn o'r CDLI (gan wneud rhagdybiaethau rhesymol ar gyfer arwynebedd llawr / unedau, gweithredu fesul cam, rhwystr ymwithiol, a meddiannaeth).
 - Cyfanswm y llwythi ar gyfer pob dalgylch.
 - Enw'r gweithfeydd trin dŵr gwastraff perthnasol, terfynau trwyddedau, a sut mae unrhyw 'hyblygrwydd' a nodwyd ar gyfer cysylltiadau newydd yn ymwneud â'r amcan strategol, sef niwtraliaeth o ran maethynnau.
 - Gwybodaeth am welliannau arfaethedig ar gyfer stripio maethynnau (gan gynnwys effeithlonrwydd canrannol stripio o'r fath) mewn unrhyw weithfeydd trin dŵr gwastraff perthnasol.
 - Pan fyddai llwythi maethynnau ychwanegol yn dod o'r safle (h.y. llai na 100% o stripio), nodwch fesur(au) lliniaru addas posibl ar y safle neu oddi ar y safle i osgoi neu leihau effeithiau andwyol ar yr ACA, gan gynnwys hyd disgwylledig unrhyw effeithiau a gostyngiadau posibl o ran llwythi. (Rydym yn derbyn bod y gwaith yn ymwneud â phecynnau a chatau lliniaru posibl ar ei gamau cynnar, ond dylid darparu cymaint o wybodaeth â phosibl i roi eglurder ynghylch sut y disgwylir i safleoedd datblygu ddod ymlaen).
 - Pan gynigir draeniad nad yw'n rhan o'r prif gyflenwad, cyfiawnhewch pam nad yw draenio o'r prif gyflenwad yn ymarferol.
- Sicrhewch yr ymgwymerir â'r dull o nodi safleoedd yr effeithir arnynt yn gyson, gan ddarparu cyfiawnhad dros sgrinio allan ddefnyddiau nad ydynt yn cynnwys arhosiad dros nos.
- Sicrhewch bod holl effeithiau cyfunol prosiectau posibl ar safleoedd o wahanol ffynonellau (e.e. dŵr ac aer) yn cael sylw yn yr Asesiadau Rheoliadau Cynefinoedd.
- Eglurwch effaith bosibl dyfarniad *CG Fry* ar safleoedd ymrwymedig a nodwch unrhyw dybiaethau a wnaed mewn perthynas â lwfansau ar hap.
- Eglurwch sut y daethpwyd i gasgliad ynghylch niferoedd a dwyseddau anheddau ar gyfer pob safle a neilltuwyd (gan nodi bod paragraff 2.18 o'r Canllawiau Statudol ar Ddraenio Cynaliadwy (SDCau) yn nodi, 'Mae'n bwysig bod cynlluniau strategol yn darparu ar gyfer SDCau, gan sicrhau gofod mewn datblygiad fel bod modd cynnwys nodweddion wyneb sy'n fwy tebygol o ddarparu manteision niferus, a sicrhau nad oes rhaid i SDCau gael eu "gwasgu i mewn" a chyfaddawdu'). Wrth wneud hynny, esboniwch yr anghysondebau rhwng capasiti'r safleoedd ar gyfer 'safleoedd

allweddol' a nodwyd ym mholisi GN 16 o'i gymharu â'r rhai a ddangosir yn Atodiad F i'r Adroddiad Hyfywedd Ariannol.

- Mae'r datganiad sefyllfa yn nodi ym mharagraff 6.24 y gall 'lwfansau [ariannol] ac elw dros ben gynorthwyo i ddarparu niwtraliaeth o ran maethynnau ar gyfer safleoedd'. Os yw'r CDLl i ddibynnu ar ganllawiau cynllunio atodol i hwyluso'r ddarpariaeth o safleoedd a ddyrannwyd, eglurwch a ydyw'r £1,500 tybiedig fesul annedd ar gyfer systemau draenio cynaliadwy yn darparu digon o le ar gyfer unrhyw liniaru gofynnol posibl ar gyfer yr holl faethynnau. (Mae rhagdybiaethau cyffredinol yn dderbyniol, a gall y cyngor ddefnyddio tystiolaeth gan awdurdodau cynllunio lleol eraill).
- Adolygwch bolisi GN 47 (a pholisïau cysylltiedig eraill) yng ngoleuni'r uchod. Gan ystyried cyngor CNC a ddiweddarwyd yn ddiweddar, byddem yn pwysleisio mantais polisi sy'n seiliedig ar effeithiau a all, er enghraifft, ganiatáu i gynigion cael eu gwneud lle mae tystiolaeth sy'n dangos y byddai amodau penodol i'r safle ac amodau hydrolegol yn osgoi effeithiau niweidiol ar gyfanrwydd cynefinoedd a rhywogaethau ACA (e.e. gan y byddai'r gollyngiad yn mynd i mewn i gorff dŵr sy'n pasio mewn perthynas â maethyn ac sydd i lawr yr afon o ran o ACA sy'n methu), waeth beth fo terfynau / hyblygrwydd trwyddedau gweithfeydd trin dŵr gwastraff, cyflawni 'camau priodol' neu fesurau lliniaru ar y safle.
- Os yn bosibl, dylai'r cyngor ymrwymo i Ddatganiad Tir Cyffredin gyda CNC i gadarnhau meysydd cytundeb / anghydfod ar yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd a'r dull arfaethedig. Os nad yw hyn yn bosibl o fewn yr amserlen, esboniwch sut a phryd y mae'r cyngor yn bwriadu ymgynghori â CNC ar yr asesiad priodol wedi'i gwblhau, fel sy'n ofynnol iddo ei wneud.